PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD

DYDD MERCHER, 21 MEDI 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Hinchey, Margaret Jones, Knight, Magill, Woodman, Walker a/ac Patel |

1 : YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd De'Ath (Cadeirydd), y Cynghorwyr Dilwar Ali; Aubrey; Goodway a Gordon.

1 : PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Cynigiodd y Cynghorydd Patel y dylid penodi'r Cynghorydd Hinchey yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Magill.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, datganodd y Cynghorydd Knight fuddiant yn Eitem 3: Cynorthwywyr Aelodau Cabinet gan ei fod ef wedi'i benodi'n Gynorthwy-ydd i Aelod Cabinet ym mis Mehefin 2015.

Roedd y Cynghorydd Knight yn y cyfarfod yn ystod yr eitem, ond nid oedd yn rhan o unrhyw benderfyniad.

4 : COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2015, eu cyflwyno er cymeradwyaeth.

Wrth ystyried y cofnodion, nodwyd pwynt o gywirdeb mewn perthynas â chofnod 15: Rheolau Gweithdrefnol y Gyllideb a chafodd y drafodaeth ei chofnodi.

Teimlwyd nad oedd y cofnodion yn adlewyrchu'r pryderon a nodwyd ynghylch y canlynol yn gywir: -

- gwiriadau diwydrwydd dyladwy o newidiadau amgen i'r Gyllideb oedd wedi bod yn amodol ar yr un broses ymgynghori a chraffu â'r cynigion cyllidebol ffurfiol nad oeddynt yn cynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb perthnasol yn unol â'r gofynion statudol; a
- nid oedd y cofnodion yn adlewyrchu'n gywir y gofyn cyfreithiol i gyllideb cytbwys a chyfreithiol gael ei chymeradwyo yn y Cyngor Llawn.

Er ei bod wedi'i nodi bod pleidlais wedi'i chynnal ar hawliau siarad yr Aelodau Cabinet unigol, nid oedd y cofnodion yn adlewyrchu'n gywir pryderon y rheiny

oedd yn bresennol na fyddai hyn yn rhoi’r hawl i Aelodau Cabinet siarad ar faterion sy’n effeithio eu portffolio nhw na'n diwygio’r cynion cyllidebol amgen.

PENDERFYNWYD – Y dylid cymeradwyo'r cofnodion ac y dylid cofnodi'r materion ynghylch cywirdeb yng nghofnodion y cyfarfod hwn.

## 5 : CROESO'R CYFARWYDDWR LLYWODRAETHU A CHYFREITHIOL A SWYDDOG MONITRO

Gwnaeth y Cadeirydd groesawu Davina Fiore, sef y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro newydd a oedd wedi dechrau yn y swydd ar 19 Medi 2016. Roedd y Pwyllgor yn edrych ymlaen at weithio gyda hi.

## 6 : PENDERFYNIADAU UNIGOL GAN AELODAU'R CABINET

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yr adroddiad i'r Pwyllgor er mwyn ystyried fframwaith cyfreithiol a chyfansoddiadol o ran Aelodau Cabinet unigol yn gwneud penderfyniadau.

Ystyriodd y Pwyllgor y penderfyniadau a wnaethpwyd gan y Cabinet dros y 12 mis ers iddynt adolygu’r penderfyniadau; y math o benderfyniadau a oedd yn cael eu gweithredu; a’r gofyn yn adroddiad Dilynol Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru 21 Mawrth 2016 i'r Cyfansoddiad adolygu nifer a categori penderfyniadau.

Penderfynodd y Pwyllgor o ystyried y cyfnod amser cyn diwedd y weinyddiaeth hon; a'r penderfyniad i fod â chyfrifoldeb ar y cyd â'r Cabinet; na ddylid gwneud unrhyw beth ymhellach ar y mater hwn ar hyn o bryd ac y dylai'r weinyddiaeth newydd ystyried unrhyw adolygiad neu newid i'r dyfodol ym mis Mai 2017.

PENDERFYNWYD –

1. y dylid nodi’r wybodaeth yn yr adroddiad;

2. na ddylid mynd ar ôl penderfyniadau Aelodau Cabinet unigol yn ystod y cyfnod oedd yn weddill o’r weinyddiaeth hon;

3. y dylai'r weinyddiaeth newydd ystyried ymhellach fframwaith cyfreithiol posibl ar gyfer penderfyniadau Aelodau Cabinet unigol ar ôl Mai 2017.

## 7 : CYNORTHWY-YDD I AELODAU'R CABINET

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol adroddiad ar rolau a dyletswyddau Cynorthwywyr Aelodau Cabinet a fyddai’n cael ei gyflwyno i’r Cyngor er cymeradwyaeth a'i gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor i sicrhau cysondeb o ran teitlau, rolau ac atebolrwydd.

Trafododd y Pwyllgor yr eitem gan greu argymhellion ar y Disgrifiad Swydd Drafft. Roedd pryder penodol ynghylch defnyddio termau yn y disgrifiad swydd 'i ddirprwyo', a phryd a phan fyddai'n rhaid i Gynorthwy-ydd i Aelod Cabinet weithredu ar ran Aelod Cabinet pe byddai angen, ac a fyddai gofyn iddynt siarad yn ffurfiol.

PENDERFYNWYD:

1. rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ddiwygio’r geiriad yn Nisgrifiadau Swyddi i ddileu unrhyw gyfeiriad ar ‘Ddirprwyo’ ac i egluro materion ynghylch cais ffurfiol i Gynorthwy-ydd i Aelod Cabinet siarad yn ffurfiol;

2. y dylid cyflwyno adroddiad ar argymhellion y Pwyllgor Cyfansoddiad i'r Cyngor Llawn er cymeradwyaeth;

3. y dylai Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ddiwygio’r Cyfansoddiad yn unol â chaniatâd y Cyngor Llawn;

4. y dylai Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol roi copi o’r Disgrifiadau Swydd i bob Cynorthwy-ydd Aelod Cabinet.

8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadeirydd: ________________________

Dyddiad: ________________________

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified